




Roeddwn i'n teimlo mor llwm â'r tywydd ac yn pendroni dros faint o law y gall cwmwl ei ddal, wrth wneud y dasg arferol o wagio'r bin. Diolch byth, mae gen i swydd ragorol o weithio yn yr awyr agored ym Mharc Glan-yr-afon. Yma, mae wastad rhywbeth i godi'r galon. Gyda hynny, hedfanodd hwyaden wyllt yn isel drwy'r glaw mân dros y gored gynddeiriog gan lanio'n dwt a throi yn sydyn fel canŵydd medrus i reidio'r afon ymchwyddol. Cafodd e ei ysgubo yn ôl tuag at ymyl y rhaeadr a'i daflu fel ar gafn boncyffion yn saethu'r dyfroedd gwyllt yn sblasio i lawr ac yn ffrwydro i fyny fel corc i'r wyneb. Rwy'n siŵr roedd e'n gwneud hynny dim ond i gael hwyl.



Mae'n atgof sy'n cilio nawr, ond a wnaethoch chi fwynhau'r lliwiau llachar yr hydref hwn? Mae'r holl arlliwiau hardd hynny wedi dod i ben gyda dyfodiad y gaeaf. Fodd bynnag, ymhlith dail yr hydref roedd rhai aeron trawiadol. Mae'r mwyafrif o aeron naill ai'n goch neu'n ddu. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i adar ddod o hyd iddyn nhw. Mae planhigion, wrth gwrs, yn denu adar ac anifeiliaid eraill er mwyn dosbarthu eu ha dau. Mae'r hedyn wedi'i amgylchynu gan fywyn tew llawn sudd, gan roi fitaminau ac egni i'r adar sy'n eu bwyta. Yn ôl yr RSPB, mae aeron yr eiddew yn cynnwys bron cymaint o galoriau â Mars Bar.

Cynhyrchir un o'r hadau mwyaf anarferol a deniadol gan y biswydden (spindle tree). Ond peidiwch â chael eich temtio i fwyta'r aeron pinc ac oren llachar sy'n


---



edrych yn debyg i losin dethol a dewis. Mae'n wenwynig! Gadewch nhw i'n ffrindiau pluog fel yr adar duon i'w helpu drwy fisoedd y gaeaf sydd i ddod.

Bydd y capsawlau egni hyn yn helpu cadw ein hadar yn fyw. Wrth i'r niferoedd enfawr o aeron yr hydref leihau drwy'r gaeaf, mae ein hadar yn chwarae gêm gynyddol ddifrifol o chwarae cwato er mwyn ceisio cadw'n fyw wrth iddyn nhw chwilio am yr aeron sy'n weddill.

Efallai y bydd y rhai ohonoch chi sydd â llygaid craff yn gweld yr aeron yn y llun isod ymysg ein perthi a'n prysgwydd.



Pa aeron yw rheina?

*Kerry*

Ceidwad Cefn Gwlad